**Dyddiad:** **16 Gorffennaf 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Cynigion ar gyfer y Gyllideb 2004-05**

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Dan Reol Sefydlog 19.1, gofynnir am farn y Pwyllgor ar y blaenoriaethau ar gyfer gwariant y Cynulliad yn 2004-05 fel y'u nodir yn llythyr y Gweinidog Cyllid, dyddiedig 10 Mehefin, at Gadeiryddion y Pwyllgorau.

## Crynodeb

2. £4.4 biliwn yw cyfanswm y gyllideb ddangosol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn 2004-05, fel y cytunwyd gan y Cynulliad. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd ym mis Hydref y llynedd y byddai darpariaeth wrth gefn sylweddol yn cael ei neilltuo yn 2004-05 a 2005-06 yng ngoleuni adolygiad Wanless. Ar gais y Gweinidog Cyllid, mae'r papur yn ystyried sut y gellir addasu'r cynlluniau gwario cyfredol yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r ymrwymiadau newidiol. Mae angen ystyried yn arbennig beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid wrth gefn er mwyn ymateb i argymhellion adolygiad Wanless o iechyd a gofal cymdeithasol. Yn unol â chais y Gweinidog Cyllid, mae angen cael nodyn yn sôn am farn y Pwyllgor ar y papur hwn erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf.

## Y Cefndir

3. Fel y nodir yn llythyr y Gweinidog Cyllid i aelodau'r Cabinet, rwy'n cydnabod nad oes llawer o le i newid ac addasu yn ystod blwyddyn lle na chynhelir Adolygiad o wariant. Nid yw ceisiadau am fwy o wariant na'r cyllidebau dangosol yn debygol o lwyddo. O gofio hyn, mae'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau sylweddol. Mae angen gwneud darpariaeth ddigonol i fynd i'r afael â'r pwysau o ran tâl, prisiau a galw ac ymateb i adolygiad Wanless. Mae amrywiaeth o ddatblygiadau hefyd ar lefel y DU o ran trefniadau tâl a newid contractau ac mae'n rhaid rhoi'r rhain ar waith o fewn y GIG.

## Ystyriaeth

4. Rwyf wedi edrych yn ofalus ar yr ymrwymiadau presennol o fewn y cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol ac rwyf am geisio rheoli'r rhain os yn bosibl. Rwy'n credu bod peth o'r pwysau ar y gyllideb iechyd yn anochel ac rwy'n credu y byddai'n anodd rheoli'r rhain o fewn y gyllideb ddangosol. Yn eu plith mae:

- Pwysau o ran tâl a phrisiau wrth gynnal gwasanaethau, gan gynnwys y cynnydd arfaethedig yn nifer y staff - byddai angen cynnydd digonol o fewn y Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru i adlewyrchu hynny;
- Cynnydd ym maes gofal sylfaenol, yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol;
- Parhau â'r gwaith o weithredu'r fformwla anghenion uniongyrchol ar gyfer Gwasanaethau Ysbyty a Chymuned, fel rhan o'n hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd.

5. Yn ngoleuni'r agenda tâl ar lefel y DU i foderneiddio tâl, nid oes modd osgoi rhoi'r Agenda ar gyfer Newid, sef y contractau newydd ar gyfer Meddygon Teulu ac ymgynghorwyr ar waith. Byddaf yn ceisio cael mwy o gyllid i wella'r ffordd y caiff yr holl weithlu iechyd a gofal cymdeithasol eu recriwtio a'u hyfforddi.

6. Rwy'n bwriadu ceisio cael mwy o gyllid ar gyfer datblygiadau ym maes gofal canolraddol a sylfaenol, a hefyd datblygiadau cysylltiedig ym maes gofal cymunedol a chymdeithasol. Ymhlith y datblygiadau hyn byddai ailflaenoriaethu ymrwymiadau presennol er mwyn targedu buddsoddiad sylweddol mewn dulliau newydd o ofal gan fynd ati i ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy integredig. Fel rhan o hyn, bydd camau i leihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo a lleddfu'r problemau ym maes gofal tymor tir. Byddai'n gam mawr tuag at weithredu argymhellion Wanless pe bai modd sicrhau cyllid parhaus ar gyfer y cynlluniau ar y cyd rhwng y GIG a gofal cymdeithasol mewn perthynas ag oedi wrth ryddhau cleifion, sy'n dechrau eleni. Byddaf hefyd yn ceisio cael cyllid ychwanegol er mwyn gwella Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn ddramatig o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau mwy o gyllid i barhau â Chronfa Cymhelliad y GIG a ddechreuodd eleni.

7. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb yn cynnig cryn her ond maent yn adlewyrchu'r themâu allweddol, sef atal anghydraddoldeb a moderneiddio ac maent yn adlewyrchu'r themâu yn adolygiad Wanless. Mae angen gwneud dewisiadau anodd, yn enwedig wrth ystyried y blaenoriaethau ar hyn o bryd.

**Cydymffurfio**

8. Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r cyllidebau ym Mhrif Grwp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyllideb y Cynulliad. Mae gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â dyrannu Cyllidebau rhaglenni wedi'u nodi yn rheol sefydlog 19. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad wedi gweld yr adroddiad hwn ac mae'n fodlon ag ef (put code in).

**Goblygiadau Ariannol**

9. Rwyf wedi trafod goblygiadau ariannol y cynigion ar gyfer y gyllideb yn 2004-05 yn fy ymateb ffurfiol i'r Gweinidog Cyllid.

**Themâu trawsbynciol**

10. Mae'r papur hwn yn rhoi sylw i'r themâu sy'n gyffredin i'r ddau faes, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor roi gwybod i mi beth yw ei farn ar y cynigion hyn erbyn 31 Gorffennaf, fan bellaf.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt: Dr Christine Daws, Cyllid y GIG, Ffôn 029 20823137.**